**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5128/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Paul.davies@senedd.wales

21 Mai 2024

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ("y Rheoliadau").

Gwneir y Rheoliadau o dan Gymal 2(1) a Chymal 3(3) Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ("y Ddeddf"), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mai.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau i wahardd allforio gwartheg ac anifeiliaid buchol eraill, defaid, geifr, moch neu faedd gwyllt, a cheffylau neu anifeiliaid ceffylaidd eraill ("da byw perthnasol") i'w lladd, gan gynnwys pesgi i'w lladd wedyn. Pan fo allforion yn anfon neu geisio anfon o Brydain Fawr i unrhyw le y tu allan i Ynysoedd Prydain neu gludiant neu ymgais i gludo, neu drefnu neu geisio trefnu cludo da byw perthnasol o Brydain Fawr neu drwy Brydain Fawr i unrhyw le y tu allan i Ynysoedd Prydain.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys y broses Cydsyniad Deddfwriaethol a amlinellir yn Rheol Sefydlog 29. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM), ar gyfer y darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan Lesley Griffiths AS, cyn Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ar 19 Rhagfyr. Argymhellodd yr LCM fod y Senedd yn cydsynio i'r Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ("y Bil"). Gosododd y Gweinidog Materion Gwledig Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i gynnig y dylai y Senedd gytuno fod darpariaethau'r Bil, i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu hystyried gan Senedd y DU. Cafwyd dadl lawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Mawrth. Cytunwyd ar y cynnig.

Mae'r Rheoliadau'n sefydlu pwerau gorfodi, troseddau, a chosbau sy'n ymwneud â'r gwaharddiad ar allforio da byw perthnasol i'w lladd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwy'n rhoi fy nghaniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ac ar gyfer cyfathrebu cydlynol a chydgysylltu'n ganolog â rhanddeiliaid. Gall teithiau cludo da byw ddechrau a theithio trwy wahanol wledydd Prydain Fawr i gyrraedd cyrchfan. Gallai rheoliadau ar wahân, neu unrhyw wahaniaeth wrth i'r rheoliadau ddod i rym, ledled Prydain Fawr arwain at gymhlethdod, anghysonderau a baich gweinyddol ar gyfer asiantaethau diwydiant a gorfodi.

Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru berthynas waith dda gyda'u cymheiriaid yn Defra a byddant yn parhau i weithio gyda hwy a Llywodraeth yr Alban i wella diogelwch lles anifeiliaid yn ystod cludiant, gan gynnal cysylltiadau rhynglywodraethol cadarnhaol ac adeiladol.

Dyddiad gosod disgwyliedig y Rheoliadau gerbron Senedd y DU, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, yw 5 Mehefin.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs